

Enw	I'w gadarnhau
Uwch gynhyrchydd	Gareth Iwan Jones , Sioned Lewis, Cerian Arianrhod, Gruffudd Pritchard
Slot	I'w gadarnhau
Hyd	27 munud a hanner neu 54 munud*
Pris	£600 - £1,600
Briff	Oes gyda chi syniad am bodlediad, ond yn teimlo mai nid Lleisiau Cymru yw'r cartref iawn iddo fe? Ydych chi'n gweld bwlch yn yr hyn rydyn ni'n darparu ar draws ein cynnwys llinol a podlediadau Lleisiau Cymru? Oes 'na gynulleidfa nad ydyn ni'n gwasanaethu ar hyn o bryd? Yn 2027-28 mae 'na le i nifer cyfyngedig o gomisiynau sydd ddim yn rhan o Lleisiau CymruRydyn ni'n chwilio am syniadau fydd: • Yn adloniannol, gyda thôn ysgafn neu gomig; • Yn ein helpu i ddenu gwrandawyr newydd i BBC Sounds, ac i gynnwys Cymraeg BBC Sounds. Mae gyda ni ddiddordeb yn enwedig mewn gweithio gydag enwau mawr gall ddod a chynulleidfa gyda nhw, cynulleidfa sydd efallai yn mwynhau podlediadau ond yn llai cyfarwydd â phodlediadau Radio Cymru. Yn 2026-2027 fe gomisiynwyd: • Rhaglen Sounds Tudur Owen • Y Fangre Hon gyda Trystan ac Emma • Stori Tic Toc • Hanes Mawr Cymru Fe fyddwn ni yn gofyn i chi ddarparu deunydd hyrwyddo petai'ch cynnig yn cael ei gomisiynu.

*Mae'r hyd i'w drafod wrth gomisiynu. Rydyn ni'n deall efallai na fydd 27'30 neu 54'00" yn addas i bob comisiwn, ond ein dyhead ni yw bod mwyafrif y comisiynau yn medru cael eu darlledu yn llinol hefyd o fewn cyfnod y ffi drwydded.

Nodyn cyfreithiol am hawlfreintiau

Fe fydd y podlediadau yma yn cael eu dosbarthu ar ffrwd RSS (h.y. mae'r podlediadau ar gael ar blatfformau masnachol, fel Spotify, Apple Podcast a BBC.com).

Oherwydd hyn mae'r comisiynau yma yn amodol ar roi'r holl hawliau angenrheidiol i'r BBC o dan y Telerau Masnach Sain i alluogi'r BBC i ymarfer ac ymelwa ar y fath hawliau, gan gynnwys clirio'r hawliau sylfaenol. Mae hyn yn golygu nad oes modd cynnwys unrhyw ddeunydd sydd dan hawlfraint (caneuon, llenyddiaeth, cerddoriaeth, geiriau caneuon yn cael eu darllen) yn y comisiynau; does dim eithriad yn bosib i'r drefn yma.

Bydd y BBC yn berchen ar sail ecsglwsif ac yn rheoli'r ffrwd RSS y mae'r teitl wedi ei chyhoeddi arni, a bydd gan y BBC yr hawl i gofrestru teitl y ffrwd fel nod masnach.